OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2017 Rhif 836 (Cy. 205)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Penparc, Ceredigion) (Terfynau Cyflymder 40 mya ac 20 mya Rhan-amser) 2017

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *15 Awst 2017* |
| *Yn dod i rym* | *17 Awst 2017* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A487 Abergwaun i Fangor, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 84(1)(c), (1A) a (2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**) ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Dyfed-Powys, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 17 Awst 2017 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Penparc, Ceredigion) (Terfynau Cyflymder 40 mya ac 20 mya Rhan-amser) 2017.

**2. —**(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**2**);

---

(**1**) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 84(1) gan adran 45(2) o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 (p.40). Amnewidiwyd adran 84(2) gan baragraff 61 o Atodlen 8 i Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22). Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(**2**) 1984 p.27; diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p.21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p.15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p.22), ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p.20).

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

   (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

   (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A487 Abergwaun i Fangor ym Mhenparc yn Sir Ceredigion;

ystyr "lluoedd arbennig" ("*special forces*") yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

**Cyfyngiadau**

**3.** Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach nag 20 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1.

**4.** Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a ddisgrifir yn Atodlen 2.

**Cymhwyso**

**5.** —(1) Ni fydd y cyfyngiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn ei dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfynau cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 15 Awst 2017

*Nina Ley*
Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli'r Rhwydwaith
Llywodraeth Cymru

# YR ATODLENNI

## ATODLEN 1
## Terfyn Cyflymder 20 mya Rhan-amser

Y darn o’r gefnffordd sy’n ymestyn o bwynt 130 o fetrau i’r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â’r ffordd sirol ddiddosbarth gyferbyn ag Ysgol Gynradd Gymunedol Penparc hyd at bwynt 167 o fetrau i’r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt y gyffordd honno.

## ATODLEN 2
## Terfyn Cyflymder 40 mya

Y darn o’r gefnffordd sy’n ymestyn o bwynt 130 o fetrau i’r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â’r ffordd sirol ddiddosbarth gyferbyn ag Ysgol Gynradd Gymunedol Penparc hyd at bwynt 382 o fetrau i’r de-orllewin o ganolbwynt y gyffordd honno.

Y darn o’r gefnffordd sy’n ymestyn o bwynt 167 o fetrau i’r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â’r ffordd sirol ddiddosbarth gyferbyn ag Ysgol Gynradd Gymunedol Penparc hyd at bwynt 375 o fetrau i’r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt y gyffordd honno.